# Diogelwch Ar-lein - Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru



## Comisiynydd Plant Cymru

## Mehefin 2024

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cyflwyniad

Yn ystod mis Mehefin 2024 buon ni'n gofyn barn plant a phobl ifanc ar ddiogelwch ar- lein.

Roedd yr holiadur yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni'n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Materion Misol, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu'n uniongyrchol â'r holl ysgolion sy'n rhan o'n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr holiadur, dangoswyd fideo i'r plant a'r bobl ifanc, yn cyflwyno'r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau am ddiogelwch ar-lein. Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni'n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda'i gilydd cyn ateb yr arolwg. Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau'r holiadur; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau'r holiadur ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o'r drafodaeth.

Atebodd cyfanswm o 1284 o blant a phobl ifanc yr arolwg. Bu 869 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o'u barn. Fe gawson ni ymatebion o 20 o'r ardaloedd awdurdod lleol, a bu ystod eang o oedrannau'n cymryd rhan, o blant dan 7 oed, i rai hyd at 18 oed.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i'r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

Defnyddiwyd canlyniadau'r holiadur fel ymateb Comisiynydd Plant Cymru i ymgynghoriad Ofcom, Diogelu Plant rhag Niwed Ar-lein.

# Cwestiynau i’r plant a bobl ifanc

Meddyliwch am yr apiau, gwefannau, neu gemau rwyt ti'n defnyddio. Wyt ti'n
teimlo'n ddiogel ac yn hapus pan rwyt ti'n defnyddio nhw?

Ydw (974) - 76%
Weithiau (249) - 19%
Ddim yn gwybod (46) - 4%
Nac ydw (20) - 2%

Os eu hateb oedd ‘Weithiau’, ‘Dydw i ddim yn gwybod’, neu ‘Nac ydw’ gofynnwyd cwestiwn arall iddynt:

**Pa apiau/gwefannau/gemau sydd wedi gwneud i ti teimlo'n anniogel neu'n anhapus?**

Dywedodd 29% o'r plant a atebodd y cwestiwn hwn Roblox
Dywedodd 17% YouTube
Dywedodd 12% snapchat

**Dyfyniadau**

- Youtube achos weithiau dyw e ddim yn dangos pethau cyfeillgar i blant a ‘gore’’ - 11 oed
- ‘Snapchat achos gall pobl ychwanegu chi’ – 10 oed
- 'Weithiau ar apiau fel Roblox mae nhw'n cael sgwrs llais lle mae rhai pobl yn dweud pethau amhriodol, ac mae pobl yn gwahaniaethu fi achos lliw fy nghroen i' - 11 oed

**Beth faset ti'n gwneud taset ti'n teimlo'n anniogel neu'n anhapus arlein, neu'n gweld rhywbeth sy'n gwneud i ti boeni?**

Dweud wrth riant/gofalwr (913) - 71%
Dweud wrth athro/athrawes neu weithiwr ieuenctid (616) - 48%
Dweud wrth rywun arall yn dy deulu (498) - 39%
Reportio fe ar yr ap/gwefan (414) - 32%
Gwneud dim byd (119) - 9%
Rhywbeth arall (115) - 9%

Os ddewison nhw 'Rhywbeth arall', gofynnwyd cwestiwn arall iddynt:

**Beth faset ti'n gwneud?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Dileu'r app
- Dweud wrth ffrindiau
- Gadael yr app/gwefan

**Wyt ti wedi reportio rhywbeth ar ap/gêm/gwefan o'r blaen?**

Dwi ddim yn siwr (75) - 30%
Ydw (62) - 32%
Nac ydw (55) - 29%

**Oes yna unrhywbeth sy'n stopio ti rhag reportio rhywbeth arlein?**

Dywedodd y mwyafrif o blant na fyddai dim yn eu hatal rhag reportio rhywbeth ar-lein. Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin oedd yn cyfeirio at rwystrau i reportio rhywbeth:

- Cael ei fwlio
- Teimlo dan fygythiad
- Ddim yn poeni digon

**Pa un o'r rhain wyt ti'n gwneud?**

Dwi'n siarad tipyn bach gyda fy nheulu am yr hyn rydw i'n gwneud arlein (599) - 47%
Dwi'n siarad llawer gyda fy nheulu am yr hyn rydw i'n gwneud arlein (348) - 27%
Dwi ddim yn siarad llawer gyda fy nheulu am yr hyn rydw i'n gwneud arlein (334) - 26%

# Cwestiynau i athrawon

Lle roedd athrawon yn ymateb ar ran grŵp, roedd eu hatebion yn adlewyrchu'r atebion a roddwyd gan y plant yn uniongyrchol.

Roedd athrawon hefyd yn cael cyfle i nodi eu persbectif a'u profiadau eu hunain yn y cwestiynau canlynol:

**I ba raddau ydy bywydau arlein plant yn effeithio ar ei addysg/bywyd ysgol?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:
- Plant yn blino oherwydd gweithgareddau ar-lein
- Diffyg cymhelliant/canolbwyntio
- Dadleuon a ddechreuodd ar-lein yn effeithio'r ystafell ddosbarth

**Oes yna unrhyw trendiau, platfformau, neu ymddygiadau newydd arlein sy'n eich poeni chi fel gweithiwr proffesiynol?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:
- Plant yn cyrchu platfformau sy'n anaddas i'w hoedran
- TikTok
- Pryderon bod rhychwant sylw plant yn byrhau
- Cynnwys amhriodol

# Diweddglo

- Bu galwadau cyson dros y blynyddoedd diwethaf am welliannau sylweddol ar gyfer diogelwch ar-lein i blant. Mae ein holiadur ciplun yn adleisio rhai pryderon cyfarwydd: profiadau sy'n gwneud i blant deimlo'n anniogel neu'n eu rhoi mewn perygl; hyder isel mewn llwyfannau i ddelio â phryderon; a phlant yn defnyddio apiau sydd yn anaddas i'w hoedran.
- Roedd canlyniadau'r holiadur yn ffurfio ein hymateb i ymgynghoriad Ofcom ar gynigion diogelwch ar-lein newydd, 'Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein'. Mae'n hollbwysig bod rheoliadau newydd yn gwneudgwahaniaeth cadarnhaol brofiadau plant ar-lein.
- Gallwch ddarllen ein datganiad i'r wasg am yr holiadur hwn ar ein gwefan, sy'n cynnwys datganiadau gan Ofcom Cymru ac NSPCC Cymru.